# Concro'r byd

(penderfyniad / dewrder)

Dim ond i chi edrych i fyny i'r awyr ar ddiwrnod clir fe welwch sawl awyren yn teithio a'r gynffon wen yn eu dilyn. Ar noson glir pan mae wedi tywyllu mae'n bosib i chi weld goleuni awyren yn symud yn araf ar draws y sêr. Mae awyrennau erbyn heddiw yn teithio i bob rhan o'r byd ac yn gwneud teithio o un rhan o'r glôb i ran arall mor sydyn a chyflym.

Ond yn y dyddiau cynnar roedd awyrennau'n bethau prin iawn. Dim ond pobl ddewr oedd yn hedfan awyrennau un injan o'r naill le i'r llall. Pan oedd Amelia Earhart yn ferch ifanc yn nau ddegau'r ganrif ddiwethaf roedd hi â'i bryd ar fod yn beilot. Ond bryd hynny, gwaith ar gyfer dynion yn unig oedd hyn a'r rheiny'n ddynion dewr. Pan oedd y milwyr yn dychwelyd o'r Rhyfel Byd Cyntaf bu'n rhaid i Amelia roi'r gorau i'w gwaith yn y coleg er mwyn gweini ar y rhai oedd wedi eu hanafu. Dechreuodd ddysgu sut i drin clwyfau'r cyn-filwyr a bu wrthi'n ddiwyd yn dysgu sut i drwsio ceir a cherbydau eraill.

Daeth tro ar fyd i fywyd Amelia. Ym 1928 penderfynodd gwraig gyfoethog o'r enw Mrs Guest ei bod am hedfan ar draws yr Iwerydd mewn awyren. Trefnodd fod peilot, Wilmer Stultz, a pheiriannydd, Louis Gordon, yn hedfan o Newfoundland ar ochr ddwyreiniol arfordir Canada yr holl ffordd i Loegr. Enw'r awyren oedd 'Friendship'. Ar y funud olaf penderfynodd Mrs Guest nad oedd am wneud y daith. Aeth i weld y peilot, "Rwyf yn awyddus i gael gair â chi," meddai Mrs Guest yn araf. "Popeth yn iawn," meddai Wilmer Stultz, ac meddai Amelia, "Rwyf wedi penderfynu na alla i wneud y daith wedi'r cwbl. Edrychais ar faint yr awyren Fokker yma a meddyliais am y cefnfor mawr. Dechreuais grynu ac mae'n wir ddrwg gen i ond fedra i ddim wynebu'r daith rhag ofn i rywbeth ddigwydd. Fuasai gen i na chi ddim gobaith."

"Popeth yn iawn," meddai Wilmer, "mi wnawn ni chwilio am rywun arall." Hwn oedd cyfle mawr Amelia. Er bod ganddi drwydded i hedfan eto i gyd doedd hi erioed wedi llywio awyren er ei bod wedi teithio mewn awyren droeon. Un awr ar hugain yn ddiweddarach roedd yr awyren fechan wedi glanio yma yng Nghymru, ym Mhorth Tywyn yn Ne Cymru. Cafodd Amelia ganmoliaeth ddi-ben-draw. Ond teimlai nad hi ddylai gael y clod

ond yn hytrach Wilmer y peilot. Penderfynodd mai hi fyddai'r wraig gyntaf i groesi'r Iwerydd wrth lyw awyren. Cychwynnodd ar ei thaith ar Mai 20, 1932, o Newfoundland i Baris. Ond sôn am daith! Aeth popeth o'i le. Torrodd y peiriant oedd yn cofnodi ar ba uchder roedd yr awyren yn hedfan. Craciodd y bibell wastraff yn ddwy a rhwygodd un o'r tanciau oedd yn cario'r tanwydd. Gwyddai na fyddai byth yn cyrraedd Paris. Glaniodd yn saff yng Ngogledd Iwerddon ond roedd wedi llwyddo i groesi'r Iwerydd ar ei phen ei hun.

Ym 1937 ceisiodd dorri record arall. Cychwynnodd o Oakland yng Nghaliffornia yn y gobaith o hedfan ar ei phen ei hun o amgylch y byd. Croesodd yr Unol Daleithiau, i'r de ar hyd arfordir Brasil, dros yr Iwerydd a thros gyfandir Affrica ac Asia ac i Awstralia. Llanwodd yr awyren â digon o danwydd i groesi'r Môr Tawel, ond diflannodd yr awyren. Ni chafwyd hyd i'r gweddillion. Roedd y ferch ddewr wedi diflannu oddi ar wyneb y ddaear.

Adnod: "Er i mi gerdded trwy ddyffryn tywyll du, nid ofnaf unrhyw niwed, oherwydd yr wyt ti gyda mi." Salm 23:4

Gweddi: Pan fydda i'n teimlo'n wan a di-ffrwt rho i mi ysbryd dewrder. Amen.

Trafod:

- Sut fyddech chi'n disgrifio Amelia – dewr ynteu ffôl?
- Ydych chi'n credu y byddai pethau'n wahanol petai hi wedi dibynnu ar rywun arall?